

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin
Disgrifiad o'r modiwl

Anelir y modiwl hwn at bobl sy'n awyddus i archwilio Saesneg a'r broses o ddysgu ac addysgu llythrennedd ac addysgu yn y byd sydd ohoni, lle ceir amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol gynyddol a datblygiadau cyflym ym maes technoleg. Mae'r modiwl yn defnyddio syniadau a thrafodaethau cyfredol allweddol, ynghyd ag enghreifftiau clyweledol o ymarfer o gyd-destunau ieithyddol gwahanol, er mwyn archwilio ffyrdd newydd a mwy effeithiol o helpu myfyrwyr i ddysgu iaith/Saesneg, dysgu drwy iaith/Saesneg a dysgu am iaith/Saesneg. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer pobl sy'n addysgu Saesneg, naill ai fel iaith gyntaf, iaith ychwanegol neu iaith dramor, a/neu i'r rheini sy'n addysgu drwy gyfrwng Saesneg, yn ogystal â'r rheini sydd â diddordeb mwy cyffredinol mewn rôl iaith wrth addysgu

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd meistr, o leiaf, mewn ieithyddiaeth gymhwysol, iaith ac addysg neu faes cysylltiedig
- Dealltwriaeth dda o ymagweddau cymdeithasol at iaith, dysgu ac addysgu, a allai gynnwys disgrifio iaith, ieithyddiaeth swyddogaethol systemig, ieithyddiaeth corpws, ymgweddau diwylliannol-gymdeithasol ac ethnograffeg.
- Profiad o ddadansoddi iaith mewn cyd-destunau gwahanol
- Rhywfaint o wybodaeth ymarferol am arferion addysgu iaith cyfredol yn un neu ragor o'r meysydd canlynol: Astudiaethau iaith a llythrennedd, ieithoedd modern, Saesneg fel ail iaith, Saesneg at ddibenion academiaidd, Saesneg fel iaith dramor, Saesneg fel cyfrwng addysgu a dysgu
- y gallu amlwg i diwtora myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol, na fydd Saesneg yn iaith gyntaf i gyfran ohonynt
- Lefel uchel o arbenigedd ym maes cyfrifiadura, gan gynnwys gwybodaeth am y modd y defnyddir technoleg mewn cyd-destunau iaith, dysgu ac addysgu, a'r gallu i diwtora ar-lein gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar-lein.
- Y gallu i ddefnyddio llwyfannau cydamseredig ac anghydamseredig wrth diwtora ar-lein.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd ddoethurol mewn ieithyddiaeth gymhwysol, iaith ac addysg neu faes cysylltiedig.
- Profiad diweddar o addysgu mewn sefydliad addysg uwch
- Profiad o addysgu ar-lein ac o bell
- Profiad o wneud gwaith ymchwil ym maes ieithyddiaeth gymhwysol neu addysg

Gwybodaeth ychwanegol

- Mae'r modiwl hwn ar gael i'w astudio ledled y byd. Caiff ei diwtora yn gyfan gwbl ar-lein gan ddefnyddio fforymau ar-lein.
- Un o'ch prif rolau fydd cymedroli fforymau grŵp tiwtor, annog y myfyrwyr i gymryd rhan, cydweithio, a chynnal amgylchedd gwaith da.

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5